

# **Adroddiad** **Blynyddol**

2023-2024



**wsa**  
Welsh Sports Association  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

# Rhagymadrodd **y Cadeirydd**



**Unwaith eto, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Chwaraeon Cymru, ac roeddwn yn falch iawn o gael fy mhenodi'n Gadeirydd y Bwrdd unwaith eto gan fy nghydweithwyr ym mis Gorffennaf 2023 gan ddechrau fy ail dymor yn y swydd. Yn yr un cyfarfod roeddem hefyd yn falch o ailbenodi Damian Phillips i'r bwrdd.**

Roedd 2023-2024 yn gyfnod o gydgrynhoi a her i'n sector. Mae dod i'r amlwg o'r pandemig i argyfwng economaidd wedi dod â heriau dwys i'n sector, a'r dirwedd gwasanaeth cyhoeddus ehangach y mae llawer ohonom yn eistedd ynddo. Fel llawer ohonoch, bu'n rhaid i ni fod yn ystwyth i ymateb i'r heriau hyn.

Roedd gennym lawer i edrych ymlaen ato - yn enwedig y Gemau Olympaidd ym Mharis 2024 a pharhau i lwyddiant Cymru ar y llwyfan byd-eang. Eto gartref, roedd ein sector yn wynebu toriad sylweddol mewn gwariant cyhoeddus a heriau parhaus o ran rheoli stoc heneiddio o seilwaith a diwallu anghenion poblogaeth Cymru sydd wedi ymestyn cyllidebau aelwydydd yn gynyddol.

Mae ein gwasanaethau aelod a mwy, a gynlluniwyd i gynorthwyo gydag atebion gwasanaeth a rennir a chymorth busnes cost isel ac effeithiol yn parhau i fod yn llwyddiant mawr. Rydym wedi gallu buddsoddi yn ein tîm staff i ddarparu'r pecynnau hyn, ac rydym bellach yn gweithio gydag ystod eang o'n haelodau i'w helpu i ganolbwyntio ar ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Mae cydweithio â'n haelodau a'r sector ar sut y

gallwn ddatblygu'r gwasanaethau hyn ymhellach yn allweddol i'n strategaeth barhaus a'n cynllun busnes, felly siaradwch â'r tîm os oes gennych unrhyw syniadau ynghylch sut y gallwn eich cefnogi.

Rydym yn falch o fod wedi cyflwyno ein hail wobrau yn y diwydiant chwaraeon, gan arddangos llwyddiant ein haelodau oddi ar y cae ac fel busnesau. Fel yn y flwyddyn flaenorol, rydym yn hynod ddiolchgar i'n noddwyr digwyddiadau, sy'n ein galluogi i gynnal y digwyddiad hwn a'i wneud yn llwyddiant iddo. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi i gyd yn y digwyddiad yn 2025.

Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn 2024-2025, byddwn yn gweld wynebau newydd yn ymuno â bwrdd WSA, wrth i Kate Stokes-Davies a Jonathan Ford ddod i ddiwedd eu telerau gwasanaeth. Mae eu cyfraniad dros y blynyddoedd wedi bod yn amhrisiadwy ac maent wedi helpu i oruchwyllo WSA sy'n esblygu, yn tyfu ac yn addasadwy. Rwy'n hynod ddiolchgar iddynt am eu cyfraniad drwy gydol y blynyddoedd yr wyf wedi eistedd ochr yn ochr â nhw.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar ein strategaeth nesaf ar gyfer WSA. Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â chi, ein haelodau i lywio hyn a datblygu ein blaenoriaethau parhaus. Rydym yn gorffaelodaeth, ac mae bob amser yn bodoli i'ch cefnogi – diolchwn i chi am eich ymddiriedaeth a'ch ymrwymiad dros y 12 mis diwethaf ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf gyda'n gilydd.

- Lynn Pamment, Chair, WSA



# Neges gan y **Prif Weithredwr**



Mae'n bleser mawr gen i eich croesawu i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Mae'r flwyddyn wedi bod yn dyst i wytnwch y sector a'i ymrwymiad diwyro i ragoriaeth. Wrth i ni fyfyrto ar ein taith dros y deuddeg mis diwethaf, cawn ein hatgoffa o'r cynnydd rydym wedi'i wneud, yr heriau rydym wedi'u goresgyn, a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Mae ein cyflawniadau wedi bod yn nodedig eleni. Rydym wedi cryfhau ein tîm, wedi ehangu ein hystod o bartneriaid, ac wedi croesawu gwasanaethau newydd sy'n gwella effeithlonrwydd a thwf ar gyfer y sector, tra hefyd yn gwneud ein haelodau'n gryfach ac yn fwy cynaliadwy.

Mae'r llwyddiannau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i ymroddiad a gwaith caled ein tîm talentog, teyrngarwch ac ymddiriedaeth ein Haelodau, a chefnogaeth ddiwyro ein Partneriaid.

Un o'n cyflawniadau mwyaf nodedig fu ein cynnydd o ran cydweithio. Rydym wedi cymryd camau sylweddol i ddarparu llwyfan i'n haelodau ddod at ei gilydd, i gyfnewid gwybodaeth a syniadau ac i rannu arferion gorau. Llwyddodd lansiad ein Gwobrau Diwydiant Chwaraeon cyntaf ym mis Mehefin 2023 i ragori ar ein disgwyliadau yn ei blwyddyn gyntaf, gyda thros 260 o bobl yn bresennol mewn digwyddiad a werthodd bob tocyn yng Ngwesty'r Parkgate. Yna, ym mis Tachwedd 2023, buom yn cydweithio â Ffederasiwn Chwaraeon Iwerddon - sefydliad rydym yn rhannu gwerthoedd ag ef - i gynnal a chyflwyno ein Cynhadledd Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon gyntaf gyda thros 100 o gynrychiolwyr a grant bach Cymru Ystwyth i gyfrannu tuag at y costau.

Wrth greu'r Gynhadledd Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon, rydym wedi cymryd camau i wella ein stiwardiaeth amgylcheddol ac i feithrin diwylliant o gyfrifoldeb a chynaliadwyedd ar draws ein haelodaeth a'n gweithrediadau ein hunain.

Mae ein perfformiad ariannol eleni wedi bod yn gadarn. Er gwaethaf amgylchedd economaidd heriol a model ariannu newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, fe wnaethom sicrhau perfformiad ariannol cadarn, gan ehangu ein gwasanaethau i aelodau, a chynnal mantolen iach. Mae'r perfformiad hwn yn adlewyrchu ein ffocws strategol a'n disgyblaeth wrth weithredu. Rydym yn ddiolchgar i Chwaraeon Cymru am eu cefnogaeth ariannol barhaus, sy'n ein galluogi i gyflawni amcanion y cytundeb Partneriaeth a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Wrth edrych ymlaen, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n cenhadaeth, sef grymuso ein haelodau i fod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus, gan gyfrannu tuag at gymdeithas sy'n ffit i'r dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at y cyfleoedd fydd ar gael yn y dyfodol ac yn hyderus yn ein gallu i lywio cymhlethdodau'r sector yn ystwyth ac yn graff.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch o galon i'n tîm yn y Gymdeithas - mae eu hymroddiad yn sylfaen i'n llwyddiant; i'n haelodau a'n partneriaid, am eu hymddiriedaeth a'u teyrngarwch parhaus; ac i'n Bwrdd, am eu cefnogaeth ddiwyro a'u hyder yn ein gweledigaeth. Gyda'n gilydd, rydym yn creu dyfodol mwy disglair a mwy llewyrchus i'r sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru.

*Sincerely,*  
Andrew Howard, CEO, WSA

# ***Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd***

## ***Gweledigaeth***

Cenedl Fywiog, Egniol

## ***Cenhadaeth***

Grymuso ein haelodau i fod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus, gan gyfrannu tuag at gymdeithas sy'n ffit i'r dyfodol

## ***Gwerthoedd***

### ***Ystwyth***

Fel corff cyhoeddus annibynnol, rydym yn gallu ymateb i'r heriau sy'n eich wynebu, yn aml cyn iddynt ddod i flaen eich meddwl.

### ***Cydweithredol***

Rydym yn creu cyfleoedd ystyrllon gyda chysylltiadau newydd, ac yn cryfhau cydberthnasoedd presennol er budd chwaraeon yng Nghymru

### ***Ymddiriedaeth***

Gan weithio i'r safonau uchaf, rydym yn ymdrechu i gynnal hyder yr aelodau, ac uniondeb Cymdeithas Chwaraeon Cymr.



# Nodau Strategol

***Ein Pwrpas: Darparu llais annibynnol, cyfunol ar gyfer y sector, gan hyrwyddo'r rôl mae'n ei chwarae a'i elw ar fuddsoddiad.***

Helpu i feithrin gallu a llywodraethu da, gan sicrhau gwytnwch ein haelodau drwy eu cefnogi i ddod yn gryfach, yn fwy llwyddiannus a chynaliadwy drwy ddarparu ystod eang o wasanaethau busnes.

**ER MWYN CYFLAWNI HYN, MAE GENNYM DRI NOD CRAIDD:**

## ***Cydweithio***

Yng Nghymdeithas Chwaraeon Cymru rydym yn gwerthfawrogi partneriaethau a'r gallu i gysylltu ein haelodau â phartneriaid a all ddod â gwerth ychwanegol i'r sector a helpu chwaraeon i ffynnu.

## ***Datblygu***

Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein gwasanaethau i aelodau. Bydd gwneud hynny'n helpu'r Gymdeithas i dyfu. Mae cydweithio parhaus yn allweddol i gynyddu ein gwytnwch ni a gwytnwch ein haelodau.

## ***Hyrwyddo***


Ni yw llais unedig ac annibynnol Chwaraeon, rydym yn hyrwyddo gwerth y sector, a rôl chwaraeon ym mywyd Cymru. Byddwn bob amser yn gweithredu er lles gorau ein sector, gan hyrwyddo sut rydym yn helpu i wella iechyd a lles ein cenedl gyda'n gilydd.



# Gwobrau 2023-24

***Ym mis Mai 2023 fe wnaethom lansio'r Gwobrau Diwydiant Chwaraeon Cymru cyntaf yng Ngwesty'r Parkgate yng Nghaerdydd.***

Roedd y gwobrau'n cydnabod ac yn hyrwyddo mentrau a llwyddiannau ein haelodau, tra hefyd yn cyfleu modelau a strategaethau arferion gorau, sy'n helpu sector chwaraeon a hamdden Cymru i ddatblygu. Cynhaliwyd ein hail seremoni wobrwyo ym mis Mehefin 2024 ac roedd yn llwyddiant mawr.



# Awards 2023-24

## Rhestr fer gwobr Menter Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau

Wedi'i noddi gan Acorn by Synergie

### Clwb Pêl-droed Bellevue

Wedi'i enwebu gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru  
Menter Clwb Pêl-droed Aml-Ethnig a Chynhwysiant

Tennis Cymru

Menter SERVES y Gymdeithas Tennis Lawnt yng Nghymru

### Y Bartneriaeth Awyr Agored

Darpariaeth Dringo Gynhwysol yn y canolbarth a'r de

## Rhestr fer gwobr Menter Orau i Hyrwyddo Menywod mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Wedi'i noddi gan Complete Background Screening

### Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Rhaglen Ysgolion 'BE Football'

Criced Cymru

Criced Pêl Feddal Merched

### Y Bartneriaeth Awyr Agored

Rhaglen Antur y Merched

## Rhestr fer gwobr Arloesedd Gorau

Wedi'i noddi gan Sportscover Europe

### Undeb Rygbi Cymru

PLAYER.Connect

Gemau'r Gymanwlad Cymru

Clwb Busnes Tîm Cymru

Beicio Cymru

Festivas

## Rhestr fer gwobr Ymrwymiad Gorau I'r Gymraeg

Wedi'i noddi gan Floodlighting and Electrical

### Y Bartneriaeth Awyr Agored

Bant â Ni

Chwaraeon a Hamdden Actif, Cyngor Sir Gâr

Actif Unrhyw Le i Ysgolion

Byw'n Iach

Byw'n Iach ac yn Gymraeg

## Rhestr fer gwobr Menter Cynaliadwyedd Orau

Wedi'i noddi gan Sport:80

### Rygbi'r Dreigiau

Dreigiau Eco

Sefydliad Pêl-droed Cymru

Cronfa Cynaliadwyedd

Golff Cymru

Golff Cymru a Men's Sheds Cymru

## Rhestr fer gwobr Menter Effaith Gymdeithasol Orau

Wedi'i noddi gan 2buy2

### Aura Leisure

Hwb Chwaraeon Cymunedol

BowlsWales

Menter BowlsCymru a'r Gymdeithas Strôc

Undeb Rygbi Cymru

Fit, Fed, Fun

## Rhestr fer gwobr Menter Gydwethredol Orau (Cyfranogiad, Nawdd neu Ymrwymiad Aelodau)

Wedi'i noddi gan Net World Sports

### Chwaraeon Anabledd Cymru

Gwyl Chwaraeon Para Chwaraeon Anabledd Cymru 2023

Sefydliad Pêl-droed Cymru a Chriced Cymru

Prosiect Hwb Cymunedol Pont-hir

Golff Cymru

Pencampwriaeth Golff Gŵyl Chwaraeon Gareth Bale

## Rhestr fer gwobr yr Ymgyrch Fwyaf Dylanwadol (Cyfathrebu, Cysylltiadau Cyhoeddus neu Eiriolaeth)

Wedi'i noddi gan Hugh James

### Codi Pwysau Cymru

Codi'r Bar

Nofo Cymru

Strategaeth Ymlaen

Sboncen Cymru

Haf o Sboncen

**wsa**  
Welsh Sports Association  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

# Perfformiad

**Rhosesom dystiolaeth i'r Senedd a Llywodraeth Cymru ar ran y sector ar nifer o feysydd - gan gynnwys ar Gyllideb Llywodraeth Cymru a dyfodol darpariaeth hamdden gyhoeddus.**

Mae ein holl waith eiriolaeth yn cael ei ariannu'n annibynnol drwy ein gweithgarwch masnachol a'n partneriaethau.

Mae gennym bartneriaethau masnachol newydd gyda Harlequin Printing & Packaging, Gray Dawes Travel, Network World Sports, Floodlighting and Electrical a PureCyber.



**93%\*** **Bodlonrwydd aelodau**

**2%\*** **Cynnydd Aelodaeth Since 2022/23**

**92%\*** **Cadw aelodau**

**125%\*** **Cynnydd Aelodaeth Since 2017/18**

\*Yn seiliedig ar arolwg annibynnol a gynhaliwyd ar ein rhan gan gwmni Pollen Shop Ltd



# Perfformiad

## Gweithgareddau craidd

### Aelodaeth yn ystod 2023-24

144 o sefydliadau

### Incwm aelodaeth

£54,711

### Incwm Aelodaeth a Mwy i gefnogi gwasanaethau a rennir

£81,991


### Incwm masnachol i'w ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau aelodau

£34,364

## Aelodaeth a Mwy

Fe wnaethom ddarparu gwasanaethau Aelodaeth a Mwy i ddau aelod ym maes eiriolaeth, pump aelod ym maes cyfathrebu a naw aelod yn ein pecyn cyllid yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2024. Mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi bod yn sylweddol ac mae'r adborth gan yr aelodau sy'n manteisio arnynt wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Oherwydd eu bod wedi cofrestru hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, mae rhywfaint o incwm o'r pecynnau hyn wedi'i gronni i 2024-25.



# Perfformiad

## *Darnau allweddol o'n hadroddiad 2023 ar ein presenoldeb ar sianeli cymdeithasol a'r we*

- Mae ein cyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan yn parhau i dyfu, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd ein dilynwyr LinkedIn wedi cynyddu **41%** o gymharu â'r pwynt canol blwyddyn.
- Mae ein cyfraddau ymgysylltu yn parhau i fod yn ffafriol ar tua **10%**, yn erbyn safonau diwydiant o tua **2-3%**. Mae ein cynnwys yn werthfawr i'n cynulleidfa.
- Y gyfradd agor ar gyfer ein cylchlythyr wythnosol yw **43%** o gymharu â safon y diwydiant sef **35%**

**Mae ein hadroddiad gwaelodlin ar gyfer 2023 ar gael yma**



# Member Feedback

	BLWYDDYN	CYTUNO'N LLWYR	CYTUNO I RADDAU	DDIM YN CYTUNO NAC YN ANGHYTUNO	ANGHYTUNO I RADDAU	ANGHYTUNO'N LLWYR	CYFANSWM Y TEIMLADAU CADARNHAOL
BYDDEN I'N ARGYMELL CYMDEITHAS CHWARAEON CYMRU FEL SEFYDLIAD GWYCH I WEITHIO GYDA NHW	2024	66%	22%	10%	2%	0%	88%
	2023	59%	34%	4%	0%	3%	93%
	2022	69%	22%	9%	0%	0%	91%
MAE CYMDEITHAS CHWARAEON CYMRU YN DARPARU GWASANAETHAU O ANSAWDD UCHEL	2024	57%	31%	12%	0%	0%	88%
	2023	55%	34%	9%	0%	2%	89%
	2022	59%	41%	0%	0%	0	100%



Yn seiliedig ar sampl o 31% o aelodau Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn ystod 2023-24

# ***Perfformiad Ariannol***

***Caiff gweithgarwch y Gymdeithas ei ariannu drwy grant craidd gan Chwaraeon Cymru (38.5%) ac incwm masnachol (5.4%).***

Roedd y grant gan Chwaraeon Cymru yn 2023/24 yn £147,000 (2022/23: £147,000) a chawsom £12,000 hefyd drwy Chwaraeon Cymru gan Gronfa Costau Byw Llywodraeth Cymru.

Mae Aelodaeth a Mwy, a gynhyrchodd £18,280 yn 2022/23 wedi parhau i fod yn llwyddiant ac mae bellach yn cynhyrchu £81,991 o refeniw i'r Gymdeithas i'w ail-fuddsoddi yn ein gwasanaethau aelodaeth. Er mwyn darparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn gyson i'r safon uchel a ddisgwyllir, penododd y Gymdeithas ddwy swydd llawn-amser\*.

Mae'r incwm ychwanegol hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith ffeilio rheoleiddiol ar gyfer aelodau Cyllid a Mwy, gan ddarparu cydymffurfiaeth gyfreithiol, tryloywder, cysondeb a llywodraethu corfforaethol da i'n haelodau a'r sector.

\* Swyddog Cyllid a Swyddog Cyfathrebu a Pholisi



# ***Perfformiad Ariannol***

***Roedd gan y Gymdeithas warged bach o £179 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2024.***

Mae gan y Gymdeithas £103,596 mewn cronfeydd wrth gefn, sydd fymryn yn uwch na lefel targed y cronfeydd wrth gefn ac yn is na'r uchafswm, fel y cytunwyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ym Mholisi Cronfeydd Wrth Gefn y Gymdeithas.

Mae'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn glustog ychwanegol i'r Gymdeithas ar gyfer heriau ariannol annisgwyl, rhagor o hyblygrwydd i fanteisio ar gyfleoedd annisgwyl, heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd ariannol, a dylai roi mwy o hyder i randdeiliaid, yn enwedig i'n haelodau.

***Mae ein cyfrifon blynyddol llawn ar gael yma***



# Perfformiad yn erbyn cyllideb 23-24

Cytunodd y Gymdeithas ar gyllideb uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyda'r disgwyl y byddai mwy o alw am wasanaethau Aelodaeth a Mwy, wrth i'r heriau ariannol barhau i daro'r sector. Roedd disgwyl hefyd y byddai'r porth caffael yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, ond ni wireddwyd hyn.

Roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r gyllideb uchelgeisiol, gydag elw i gryfhau'r Cronfeydd Wrth Gefn, ond rhoddwyd sicrwydd iddynt gyda'r gyllideb fwy ceidwadol, gan gydnabod bod incwm gwarantedig yn ddarpariaeth wrth gefn gadarn.



	GWIRIONEDDOL	CYLLIDEB	GWAHANIAETH
Arian grant	£167,501.05	£162,500.00	£5,001.05
Ffioedd Aelodaeth y Gymdeithas	£54,711.31	£56,000.00	(£1,288.69)
Ffioedd Aelodaeth a Mwy	£81,990.87	£76,000.00	£5,990.87
Incwm arall y Gymdeithas	£77,407.28	£88,744.00	(£11,336.72)
<b>CYFANSWM INCWM</b>	<b>£381,610.51</b>	<b>£383,244.00</b>	<b>(£1,633.49)</b>
Costau Staff a Bwrdd	£305,746.45	£304,807.00	(£939.45)
Gwasanaethau Aelodau	£54,355.00	£43,261.00	(£11,094)
Gweinyddiaeth	£21,330.74	£15,471.00	(£58,94.74)
<b>CYFANSWM TREULIAU</b>	<b>£381,432.19</b>	<b>£363,539.00</b>	<b>(£17,893.19)</b>
<b>INCWM NET</b>	<b>£178.32</b>	<b>£19,705.00</b>	<b>(£19,526.68)</b>

# ***Perfformiad Ariannol***

## ***Busnes Gweithredol***

Mae'r cwmni'n parhau i ehangu ei ystod o wasanaethau ac mae'r cyfarwyddwyr yn credu ei fod mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes yn llwyddiannus.

Yn unol â hynny, mae ganddynt ddisgwyliad rhesymol bod gan y cwmni adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy ac felly maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, adolygwyd a diwygiwyd y polisi cronfeydd wrth gefn gan y cyfarwyddwyr, gan gytuno ar weithdrefnau mwy cadarn a gweithredu ystod lefel o arian wrth gefn rhwng isafswm lefel cysur ac uchafswm lefel cysur, gyda tharged yn y canol.



# Adroddiad **Atebolrwydd**

## **Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr**

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros:

- 1 sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, a
- 2 paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac o'i warged neu ddiffyg ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â datganiadau ariannol, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r cwmni.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi a'u cyflwyno yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n ddarostyngedig i gyfundrefn y cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 11 Gorffennaf 2024, ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

- MA Tweed (Cyfarwyddwr)





# Adroddiad **Atebolrwydd**

- Bwrdd o wirfoddolwyr yw bwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru sy'n cwrdd bob deufis.
- Cynhelir diwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yn y cyfarfod yn 2024 trafodwyd:
  - Effeithiolrwydd y Bwrdd
  - Adolygu Ymatebion i'r Arolwg Aelodau
  - Cynllun Busnes Cymdeithas Chwaraeon Cymru 2024-2025
  - Strategaeth Cymdeithas Chwaraeon Cymru - Myfyrdodau, Sganio'r Gorwelion a Blaenoriaethu
  - Paratoi ar gyfer strategaeth 2025-2028 y Gymdeithas
- Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiadau llywodraethu mewnol yn flynyddol, ac adolygiadau allanol bob tair blynedd.
- Mae eitemau sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod bwrdd yn cynnwys cyllid a chyllideb, cyflawni yn erbyn strategaeth, rheoli risg a'r gofrestr risg a'r cynllun datblygu llywodraethiant.



# The Board

				Attendance
Lynn Pamment	Cadeirydd	Aelod Annibynnol		100%
Fergus Feeney	Is-gadeirydd	Aelod Etholedig, Nofio Cymru		83%
Jonathan Ford		Aelod Annibynnol	Tymor yn dod i ben Hydref 2024	83%
Kate Stokes Davies		Aelod Annibynnol	Tymor yn dod i ben Gorffennaf 2024	33%*
Geraint John		Aelod Etholedig, Undeb Rygbi Cymru		66%
Mark Tweed		Aelod Annibynnol		66%
Kami Lamakan		Aelod Annibynnol		100%
Damian Philips		Aelod Annibynnol		100%
Andrea Ovey		Aelod Etholedig, Casnewydd Fyw		83%
Richard Lancaster		Aelod Etholedig, Prifysgol Abertawe		83%



\* Dioddefodd yr aelod gyfnod o salwch yn ystod y flwyddyn

# ***Gweinyddu a Llywodraethu***

- Cynyddodd ein costau gweinyddol yn ystod y flwyddyn oherwydd rhagor o fuddsoddiad mewn offer cyfrifiadurol a seiberddiogelwch. Nododd y Bwrdd mai seiberddiogelwch oedd y risg uchaf ar ein cofrestr risg. Mewn ymateb, buddsoddwyd mewn pecyn sylfaen seiberddiogelwch i liniaru'r risg hon yn effeithiol.
- Cynyddodd ein costau Llywodraethu hefyd ar ôl buddsoddi yn system CalQRisk, sef llwyfan Llywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth, sy'n cyd-fynd â Fframwaith Galluogrwydd Chwaraeon Cymru.
- Cynyddodd cost yswiriant am y flwyddyn hefyd o £2,969 i £3,844.



# Staffio

- Yn ystod y flwyddyn, cyflogwyd chwe aelod o staff llawn-amser ac un aelod o staff rhan amser (0.6 cyfwerth ag amser llawn).
- Cyfanswm y costau staffio, gan gynnwys cyflogau, treuliau staff a hyfforddiant oedd £305,746.
- Tyfodd y tîm staff yn ystod y flwyddyn gyda gweithiwr rhan amser ychwanegol. Roedd hyn mewn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau i aelodau, gan gynnwys Aelodaeth a Mwy a gwiriadau DBS, o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd modd i ni ail-fuddsoddi Incwm masnachol ychwanegol mewn gwasanaethau aelodau.



# ***Diolch Aelodau Newydd***



# Thank you to our members

Active4BloodWo	Ebbw Vale Wheelchair Sports Club	Football Association of Wales	Bridgend County Borough Council	Association	Welsh Darts Organisation	Carmarthenshire County Council - Actif
Conwy County Borough Council	RBI Wales Baseball & Softball	Shin Ghi Tai Aikido Association	GLL - Better	British Horse Society Cymru	Cambrian Caving Council	North Wales Cyclocross Group
Parkour UK	Wales Lacrosse Association	Wales Touch Association	Special Olympics Wales	Introsport Trust	Mountain Training Trust - Plas Y Brenin	The Sporting Memories Foundation
University of South Wales	Welsh Rugby Union	Welsh Target Shooting Federation	Welsh Amateur Boxing Association	Street Football Wales	Table Tennis Wales	Welsh Karate Governing Body
Welsh Padel Centre	Badminton Wales	Baton Twirling Association Cymru	Yoga Satsanga Ashram	Welsh Chess Union	Welsh Fencing	Welsh Karate Governing Body
African Community Centre	English Ice Hockey Association	Freedom Leisure	British Dressage Wales	British Martial Arts & Boxing Association	Canoe Wales	Cobra Martial Arts Association
Cricket Wales	Rhigos Community Sports Association	Skateboard GB	Gôl Centres Ltd	Kensei Ju Jitsu Association United Kingdom	Mudiad Meithrin	Ospreys in the Community
Pembrokeshire C.C.	Wales National Pool Swansea	Wales Walking Football Federation	SportCheer Wales	Street Games	Tchoukball UK	Torfaen Leisure Trust
Urdd Gobaith Cymru	WSTAA	Welsh Triathlon	Welsh Archery Association	Welsh Curling Association	Welsh Field Archery Association	Welsh Korfball Association
Welsh Pétanque Association	Ball Hockey UK	BowlsWales	British Esports (Federation)	British Mountaineering Council	Cardiff City FC Foundation	Commonwealth Games Wales (CGW)
Angling Cymru	Esports Wales	Game on Wales - Coalfields Regeneration Trust	Hockey Wales	Legacy Leisure	Mumbles Community Association	Para Dance UK
DanceSport Wales	Ringland Community Group	Snowdonia Active	Spoted Foundation	Surf Lifesaving Association of Wales	Tennis Wales	UK Breakin' National Governing Body
PlaySports	Wales Netball	Water Skills Academy	Welsh Association of Motor Clubs	Welsh Cycling	Welsh Gymnastics	Welsh Mixed Martial Arts Association
Volleyball Wales	Welsh Student Sport	Welsh Wrestling	British Fencing	Byw'n Iach	Cardiff Devils Ice Hockey Club	UK Brazilian Jiu Jitsu Association
Welsh Rowing	Bangor University	Boys and Girls Clubs of Wales	Impetus Dance	Llanddulas Youth Club	My E-motion	Welsh Motorcycle Federation
Association of British Riding Schools and Livery Yards	FF Dancers	Glamorgan County Cricket Club	Sports Chaplaincy UK - Wales	Swansea University	CIMSPA	
Disability Sport Wales	RYA Cymru	Snowsport Cymru Wales	Welsh Athletics	Rubicon Dance	Welsh Judo Association	
Powys County Council	Wales Rugby League	Weightlifting Wales	British Horse Ball Association	Caerphilly County Borough Council	Cardiff International White Water	
Wales Golf	Welsh Surfing Federation	WAKO GB	Inclusive Skating	Merthyr Tydfil Leisure Trust	Newport Live	
Welsh Rugby Players Association	Basketball Wales		Squash Wales	Swim Wales	The Outdoor Partnership	
Aura Leisure & Libraries			Welsh Billiards & Snooker		Welsh Karate Collective	

# ***Diolch i'n partneriaid***





# wsa

Welsh Sports Association  
Cymdeithas Chwaraeon Cymru

[www.wsa.wales](http://www.wsa.wales)

Welsh Sports Association  
Sport Wales National Centre,  
Sophia Gardens,  
Cardiff,  
CF11 9 SW

**Twitter:** @welshsportassoc

**Email:** admin@wsa.wales

**Phone:** 02920 334970

Designed by  
*LetsTalk Design*  
[www.LetsTalk-Design.com](http://www.LetsTalk-Design.com)